# Penrhys

Mae pentref Penrhys uwchben Tylorstown ar y mynydd rhwng y Rhondda Fach a'r Rhondda Fawr ac1100 troedfedd uwch lefel y môr. Agorwyd y pentref yn swyddogol yn 1968 gyda 951 o lefydd byw. Dros y blynyddoedd mae nifer y bobl sy'n byw yn y pentref wedi gostwng. Fel y gŵyr pawb mae pentref Penrhys wedi cael hysbysrwydd gwael dros y blynyddoedd gyda thor cyfraith yn rhemp yno a diweithdra yn uchel ond mae yna gymuned glos, gyfeillgar sy'n dangos consyrn am ei gilydd yn byw yno.

Dechreuwyd yr 'Achos' ym Mhenrhys yn 1971 fel Cymdeithas Cydenwadol gyda chefnogaeth yr wyth enwad ac undeb oedd yn aelodau o Gyngor Eglwysi Cymru. Ar y pryd 'roedd hwn yn arbrawf dewr mewn eciwmeniaeth a chenhadaeth. Partneriaeth eciwmenaidd leol yw Llanfair gyda chorff rheoli sy'n cynnwys aelodau o'r wyth enwad sef Undeb Bedyddwyr Cymru, y Gynghrair Gynulleidfaol, Yr Eglwys Fethodistaidd, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yr Eglwys yng Nghymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig.

Yn y blynyddoedd cynnar doedd dim adeilad gan yr Eglwys ym Mhenrhys ond roedd yna griw o bobl yn cwrdd mewn siop wag yn y Ganolfan Gymdeithasol i addoli. Roedd bywyd y gynulleidfa yn adlewyrchu bywyd y gymuned leol. Yna yn 1986 symudodd John a Norah Morgans, (a John ar y pryd yn dal yn y swydd o Gymedrolwr yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig yng Nghymru) i fyw i Benrhys. Cafodd ei sefydlu yn weinidog ar yr Eglwys yno yn Hydref 1989. Mae'r Eglwys ym Mhenrhys wastad wedi bod yn rhan annatod o'r gymuned ac yn 1989 penderfynwyd bod yr amser wedi dod i adeiladu 'capel' yn y pentref ac aethpwyd ati i ddechrau ar y gwaith. Gosodwyd wyth carreg o'r wyth eglwys a ddatgorfforwyd yn y Rhondda Fach yn sail i fynedfa'r Ganolfan. Agorwyd y capel newydd ar 29 Chwefror 1992. Hefyd yn 1989 cafodd y Gymdeithas Gydenwadol ei chydnabod fel yr Eglwys Gydenwadol Llanfair Penrhys gan yr wyth enwad.

Capel syml ydyw sydd bron yn grwn gyda gwahanol faneri ar y muriau (wedi eu creu ym Mhenrhys) i gyd-fynd â'r gwahanol dymhorau ac i ddathlu'r gwahanol dymhorau. Mae'n hawdd addasu'r capel ar gyfer gwahanol achlysuron ac mae ar agor ar gyfer gwahanol weithgareddau bob dydd o'r wythnos. Yn y canol gwelir Bwrdd y Cymun sydd yn grwn ac ar y Bwrdd mae yna gwpan a phlât ac o flaen Bwrdd y Cymun mae cannwyll fawr sydd yn cael ei chynnau i ddynodi dechrau'r gwasanaeth. Yn y capel hefyd mae'r bedyddfaen a'r ddarllenfa lle gwelir copi o'r Beibl Cymraeg a Saesneg.

Ers blynyddoedd mae Penrhys wedi croesawu gwirfoddolwyr o Fadagasgar, Corea, Hwngari a nifer o wledydd eraill ac mae eu cyfraniad i fywyd Penrhys wedi bod yn enfawr. Mae gweld y gwirfoddolwyr wrth eu gwaith a'r ffordd mae'r trigolion yn ymateb iddynt yn brofiad amhrisiadwy. Ers yn agos i ugain mlynedd mae Sharon Rees wedi bod yn byw a gweithio ym Mhenrhys ac mae ei chyfraniad hithau i Lanfair a'r gymuned yn enfawr.

Dechreuodd y broses o adfywio'r gymuned ym Mhenrhys gyda John a Norah a datblygiad Llanfair yn 1992. Datblygwyd nifer o brosiectau cymunedol gyda chefnogaeth tîm o wirfoddolwyr lleol a gweithwyr ym myd addysg ynghyd â sefydlu 'Partneriaeth Penrhys' ac yn 1993 crëwyd Canolfan Pentref Penrhys. Mae'r Ganolfan yn cynnig ystod o wasanaethau sylfaenol a chyfleoedd i unigolion a grwpiau yn y gymuned.

Mae Canolfan Penrhys yn cynnwys clwb gwaith cartref i'r plant a'r bobl ifanc, llyfrgell sy'n cynnwys llyfrau Cymraeg a Saesneg (mae'n hyfryd gweld bod lle i'r Gymraeg yn y gwahanol ystafelloedd), dosbarth celf a cherddoriaeth gyda chyfle i'r plant ddysgu canu'r piano, londrét, y caffi ac wrth gwrs y '*boutique*'. Mae'n fraint ein bod ni ym Minny Street wedi cael y cyfle i gyfrannu tuag at y '*boutique*'. 'Roedd y tîm mor ddiolchgar pan gyrhaeddais yno yn ddiweddar gyda 16 o fagiau o ddillad!

'Roedd penwythnos 23 a 24 Medi yn benwythnos o ddathlu a diolch gan fod y Ganolfan a Llanfair wedi cael eu hadnewyddu dros y misoedd diweddar ac yn edrych fel newydd. Bu rhai ohonom o Minny Street yn y gwasanaeth dathlu. Roedd yn brofiad ysbrydol i fod yno a bod yn dystion i frwdfrydedd a llawenydd y trigolion ar yr achlysur pwysig a hapus hwn yn hanes Penrhys a gweld y capel yn llawn, gyda llawer o blant a phobl ifanc yn bresennol yn yr oedfa.

Mae ymweld â Phenrhys bob amser yn brofiad gwahanol ac yn gwneud i mi sylweddoli pa mor freintiedig yr ydym ni a sylweddoli hefyd gymaint sydd gennym i'w ddysgu gan y gymuned glos gwbl arbennig yma ym Mhenrhys. Mi fyddai'n hyfryd petai modd trefnu criw o Minny Street i ymweld â Phenrhys yn y dyfodol.

**Margaret Davies**